

Arolygiad Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl: Gwasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Ysbyty'r Tri Chwm / Cedar Parc /
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin
Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 28

Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 1 Mawrth
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	21
4.	Beth nesaf?	255
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG.....	26
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ...	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	288
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i dylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG dirybudd o Ysbyty'r Tri Chwm ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 28 Tachwedd 2017. Ymwelwyd â'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Cedar Parc

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid Deddf Iechyd Meddwl.

Adolygwyd dogfennau ar gyfer cleifion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gennym yn ystod yr arolygiad hwn, er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf. Gwnaethom ystyried sut y mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â:

- Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Archwiliodd AGIC hefyd sut yr oedd y gwasanaeth yn bodloni agweddau ar Safonau Iechyd a Gofal 2015.

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod y ffeiliau a adolygwyd gennym yn foddhaol o ran gofynion Deddf Iechyd Meddwl 1983. Fodd bynnag, canfuwyd gennym fod rhywfaint o waith papur ar goll a/neu'n anghyflawn ac, er y rhoddwyd sylw i hyn ar adeg yr ymweliad, rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd ddarparu sicrwydd bod y materion a nodwyd wedi cael eu cwblhau.

Er bod y ward yn ymddangos yn lân a bod cynlluniau i wella'r amgylchedd gyda chyfleusterau newydd i gleifion a gardd, nodwyd problemau gennym a oedd yn amharu ar breifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd paneli golwg yn nrysau'r ystafelloedd gwely a golygfeydd i mewn i ystafelloedd gwely'r cleifion o'r ardd ymhlith y materion yr ydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd eu gwella.

Mae angen ailwampio'r ardd i'w gwneud yn ddiogel ac yn addas ar gyfer y grŵp cleifion. Sefydlwyd prosiect gardd ac mae'n cael ei reoli gan staff y ward, ac roedd arian yn cael ei godi at y diben hwn. Fodd bynnag, ni ellir darparu'r prosiect hwn ar wahân ac mae angen cymorth gwell gan y bwrdd iechyd fel y gellir cwblhau'r ardd yn gyflym er mwyn i'r grŵp cleifion ei defnyddio.

Gwelsom y staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn darparu gofal i'r cleifion mewn ffordd garedig a chyda pharch. Fodd bynnag, rydym wedi argymhell y dylid adolygu cymysgedd sgiliau'r staff, yn enwedig ar gyfer cyfnodau o aciwtedd/angen cleifion uchel. Mae hyn er mwyn sicrhau bod diogelwch, gofal a thriniaeth y grŵp cleifion yn briodol.

Roedd prosesau ar waith i'r staff dderbyn gwerthusiad blynyddol a chwblhau hyfforddiant gorfodol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom waith tîm da yn cael ei wneud

- Roedd y ward yn cynnig amrywiaeth o leoedd i'r cleifion lle gallent gyfarfod ag ymwelwyr yn breifat
- Roedd canran uchel o gydymffurfiad o ran gwerthusiadau staff

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd rhannau o'r amgylchedd yn cael effaith negyddol ar breifatrwydd ac urddas y cleifion ac mae angen gwella'r rhain
- Nid oedd yr ardd yn hygyrch i'r cleifion heb i'r staff fynd gyda nhw, oherwydd y peryglon i ni eu gweld. Mae angen cefnogaeth lawn i brosiect yr ardd a'i gwblhau'n gyflym fel y gall y cleifion ddefnyddio'r fan hon heb gael eu goruchwylio gan y staff
- Mae angen adolygu cymysgedd sgiliau'r staff i sicrhau bod staff â sgiliau priodol ar gael yn ystod cyfnodau o aciwtedd uchel i ddarparu gofal a thriniaeth ddiogel
- Mae angen gwybodaeth well i gleifion ar y ward. Er enghraifft, nid oedd trefniadau Gweithio i Wella a gwybodaeth am eiriolaeth i'w gweld ar y ward

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty'r Tri Chwm yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Ffordd y Coleg, Glynebwy, NP23 6GT, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Ysbyty'r Tri Chwm yn gyfleuster a adeiladwyd yn bwrpasol sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleusterau ar gyfer pobl hŷn â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys clinigau, ysbytai dydd, wardiau, a gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol.

Cynhaliwyd ein hymweliad â Cedar Parc, ward rhywiau cymysg ar gyfer cleifion ag afiechydon organig¹ a gweithredol.² Ceir 13 o welyau ar y ward ac roedd deg o gleifion yn aros arni ar adeg ein hymweliad.

Ceir tîm staff yn cynnwys seiciatrydd ymgynghorol a meddyg ward, therapyddion galwedigaethol, nyrsys, gweithwyr cymorth gofal iechyd, staff gwasanaethau gwesty a derbynnnydd/clerc ward ar Cedar Parc.

Roedd staff gwasanaethau cymdeithasol wedi eu lleoli ar yr uned hefyd ac roedd gweithwyr cymdeithasol a chymorth gweinyddol ar gael ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm. Mae gan wasanaethau trydydd sector bresenoldeb gweithredol hefyd, gyda Croesffyrdd, Age Concern a Chymdeithas Clefyd Alzheimer yn gweithio o'r uned.

¹ Mae symptomau cyffredin anhwylderau meddwl organig yn cynnwys dryswch, colled cof, colled gweithrediad yr ymennydd, ac aflonyddwch, ond gall symptomau fod ychydig yn wahanol yn dibynnu ar y cyflwr. Mae enghreifftiau o anhwylderau meddwl organig yn cynnwys deliriwm, dementia, clefyd Alzheimer ac amnesia.

² Mae'r term salwch meddwl 'gweithredol' yn berthnasol i anhwylderau meddwl ac eithrio dementia, ac yn cynnwys salwch meddwl difrifol fel sgitsoffrenia ac anhwylder hwyliau deubegynol. Mae symptomau'r anhwylderau hyn yn aml yn parhau i henaint neu, yn llai aml, yn cychwyn yn ystod henaint.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom y staff yn trin y cleifion gyda pharch trwy gydol ein harolygiad a gwelsom y cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden ar y ward.

Roedd y ward yn ymddangos yn lân ac fe'n hysbyswyd am y cynlluniau i wella'r amgylchedd gyda salon trin gwallt a bar ewinedd newydd i'r cleifion.

Nodwyd materion a oedd yn amharu ar breifatrwydd ac urddas cleifion gennym ac argymhellwyd y dylid rhoi sylw i'r rhain fel mater o frys. Roedd y paneli golwg yn nrysau'r ystafelloedd gwely wedi eu gwneud o wydr clir ac felly'n amhriodol gan eu bod yn caniatáu i unrhyw un weld yn syth i mewn i ddwy ystafell wely. Roedd golygfeydd eglur i mewn i ystafelloedd gwely cleifion o'r ardd hefyd.

Roedd gardd gaeedig yn Cedar Parc, ond nid oedd y cleifion yn gallu ei defnyddio heb i'r staff fynd gyda nhw oherwydd llawer o beryglon baglu a pheryglon eraill. Roedd prosiect staff ar waith i godi arian fel y gellid gwneud yr ardd yn hygyrch, ond mae angen i'r bwrdd iechyd gynorthwyo'r prosiect hwn i sicrhau bod gan y cleifion gyfleuster ychwanegol i ymarfer corff yn rheolaidd, i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ardd ac yn yr awyr agored, ac i gael y rhyddid i fwynhau rhywfaint o le diogel yn yr awyr agored.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth i gleifion ac ymwelwyr yn y cyntedd, ond roedd angen rhywfaint o welliant i sicrhau bod gwybodaeth gyfredol wedi ei harddangos, gan gynnwys trefniadau 'Gweithio i Wella'.

Cynigiwyd cyfle i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr siarad â ni yn ystod yr arolygiad. Dywedodd y rheini i ni siarad â nhw fod gofal a thriniaeth dda yn cael eu darparu.

Cadw'n iach

Roedd hysbysfwrdd sialc yn yr ystafell fwyta yn cyflwyno'r dewisiadau amser cinio ar gyfer y dydd, a oedd yn cynnwys opsiynau poeth ac oer yn ogystal â phwddin. Roedd lluniau o wahanol fwydydd wedi eu harddangos yn yr ystafell, ond nid oedd unrhyw wybodaeth benodol am fwyta'n iach wedi ei harddangos.

Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael cynnig dewisiadau o ran yr hyn yr oeddent yn dymuno ei fwyta a bod y rhain yn cael eu gwneud ymlaen llaw. Gwelsom jygiau dŵr yn y lolfa a dywedodd y staff wrthym fod byrbrydau a diodydd ar gael y tu allan i amseroedd bwyd penodedig.

Roedd y cleifion yn gallu symud yn rhydd ar y ward, a oedd yn addas i gynorthwyo unrhyw un a oedd angen cymorth symud.

Roedd gardd gaeedig yn Cedar Parc y gellid ei gweld o ystafelloedd gwely rhai cleifion ac o'r lolfa/ystafell fwyta cynllun agored. Roedd yr ardd yn fawr ac yn cynnwys mannau a oedd yn addas ar gyfer gweithgareddau therapiwtig, ond roedd angen ei hailwampio i'w gwneud yn addas ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd rhai gwelyau uwch yn yr ardd i annog y cleifion i gymryd rhan mewn gwaith plannu, a llwybrau i gerdded arnynt. Fodd bynnag, roedd nifer o beryglon a oedd yn atal mynediad i gleifion oni bai fod staff gyda nhw. O ganlyniad, roedd y drws i'r ardd yn cael ei gadw ar glo i atal pobl rhag mynd allan ar eu pen eu hunain. Gwelwyd bod ochrau pafin y llwybrau yn beryglon baglu ac roedd rhaff o amgylch y decin pren gan ei fod yn beryglus oherwydd pren pydredig. Dywedodd y staff wrthym nad oedd y ffensys yn briodol oherwydd y bu achlysuron pan oedd cleifion wedi ceisio gadael safle'r ysbyty. Dywedodd y staff wrthym am y prosiect gardd a oedd yn codi arian i wneud yr ardd yn addas ar gyfer y grŵp cleifion, a gwelsom dystiolaeth ohono. Argymhellir bod y prosiect hwn yn cael ei gefnogi gan y bwrdd iechyd fel bod gan y cleifion gyfleuster addas i wneud ymarfer corff rheolaidd, i gymryd rhan mewn gweithgareddau gardd ac awyr agored, ac i gael rhyddid i fwynhau rhywfaint o le diogel yn yr awyr agored.

Roedd teledu ar gael i'r cleifion yn y lolfa/ystafell fwyta cynllun agored a gwelsom rai yn mwynhau clasur o ffilm, gyda'r staff yn cynnig popgorn i gyfoethogi'r profiad. Roedd cleifion eraill yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celf a chreffft ac eraill yn cwblhau posau croesair.

Roedd atgynhyrchiad o far ger yr ystafell fwyta. Dywedodd y staff wrthym fod y bar yn cael ei ddefnyddio i ddarparu coctels di-alcohol a diodydd eraill i'r

cleifion. Gwelsom luniau wedi eu harddangos o gleifion yn mwynhau'r gweithgaredd hwn ac fe'n hysbyswyd ei fod yn boblogaidd iawn.

Roedd hysbysfwrdd yn dangos gweithgareddau cymdeithasol a hamdden y cleifion wedi ei leoli y tu allan i'r ward. Roedd hyn yn golygu nad oedd y cleifion yn gallu gweld y wybodaeth hon. Argymhellwyd gennym felly fod gwybodaeth o'r fath yn cael ei lleoli mewn man lle gall y cleifion weld pa weithgareddau sydd ar gael bob dydd.

Roedd bwrdd â chloeon a switsys cyffyrddol wedi ei osod ar y wal yng nghoridor y ward i'r cleifion eu symud a'u cyffwrdd. Roedd hetiau a sgarffiau wedi eu harddangos hefyd a gallai'r cleifion eu defnyddio a/neu eu cyffwrdd. Fe'n sicrhawyd gan y staff fod y bachau yr oedd yr hetiau a'r sgarffiau wedi eu gosod arnynt yn addas ar gyfer y grŵp cleifion a bod asesiadau risg wedi cymryd pwyntiau rhwymynnau posibl i ystyriaeth.

Roedd ystafell o'r enw 'The Singing Kettle' wedi cael ei chynllunio i ymdebygu caffi. Gallai'r cleifion ac ymwelwyr ddefnyddio'r ystafell ac roedd gwrthrychau wedi eu harddangos a allai helpu gyda therapïau cof.

Dywedodd y staff wrthym y disgwyliwyd i fyrddau lluniau cof newydd gael eu gosod ar y ward er budd y cleifion. Roedd golygfeydd o Gymru a hanes lleol wedi eu harddangos ar y waliau hefyd, mewn ymdrech i ysgogi'r cleifion mewn ffordd briodol.

Roedd campfa wedi ei lleoli oddi ar y ward. Roedd angen asesu'r cleifion i ddefnyddio'r cyfleuster hwn ac roedd aelodau staff yn mynd gyda nhw. Hefyd, trafodwyd cynlluniau i droi ystafell yn salon trin gwallt a bar ewinedd ar gyfer y cleifion. Byddai'r cyfleuster hwn yn ychwanegu budd ychwanegol at y ward ac yn cynnig lle arall lle gallai'r cleifion ymgysylltu'n gymdeithasol â staff sy'n ymweld, sy'n dod i'r ward yn rheolaidd i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Roedd Cedar Parc wedi ei ddiogelu rhag mynediad heb awdurdod gan system intercom. Roedd mynediad at y ward yn briodol i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion ar y wardiau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i ardd Cedar Parc fod yn fwy hygyrch i'r grŵp cleifion fel bod gan y cleifion gyfleuster ychwanegol i wneud ymarfer corff rheolaidd, i gymryd rhan mewn gweithgareddau gardd ac awyr agored, ac i gael rhyddid i fwynhau rhywfaint o le diogel yn yr awyr agored.

Gofal ag urddas

Gwelsom y staff yn rhyngweithio gyda'r cleifion yn briodol ac yn trin y cleifion gydag urddas a pharch. Roedd tystiolaeth fod y staff yn annerch y cleifion gan ddefnyddio'r enw yr oeddent yn ei ffafrio. Roedd y staff i ni siarad â nhw hefyd yn frwdfrydig am sut yr oeddent yn cynorthwyo ac yn gofalu am y cleifion.

Roedd hysbysfwrdd statws cleifion³ yn swyddfa'r nyrsys yn dangos gwybodaeth gyfrinachol am bob claf a oedd yn derbyn gofal ar y ward. Roedd cyfleusterau i guddio'r wybodaeth gyfrinachol pan nad oedd yr hysbysfyrddau'n cael eu defnyddio. Roedd hyn yn golygu bod y tîm staff yn gwneud pob ymdrech i ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol y cleifion.

Nodwyd gennym o'n harsylwadau o'r amgylchedd nifer o faterion a oedd yn peryglu preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd paneli golwg gwydr clir yn nrysau dwy ystafell wely a oedd yn golygu y gallai pawb a oedd yn mynd heibio'r ystafelloedd weld i mewn iddynt. Roedd dillad gwely a sgriniau haul ar gyfer car yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas, ond roedd y rhain yn ddulliau annerbyniol o fynd i'r afael â'r mater. Roedd darnau tywyll ac un panel clir yn nrysau'r ystafelloedd gwely eraill. Ni ellid cau na gorchuddio'r paneli clir, felly unwaith eto roedd preifatrwydd ac urddas yn cael eu peryglu. Argymhellwyd gennym felly fod paneli golwg priodol yn cael eu gosod yn nrysau pob ystafell wely i sicrhau y gellir cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion, gan ganiatáu i'r staff arsylwi ar adegau priodol.

Roedd ffenestri yn rhai o'r ystafelloedd gwely a oedd yn wynebu'r coridor a sylwyd bod bleind wedi ei osod y tu allan i ffenestr un o'r ystafelloedd hyn. Roedd hyn yn golygu bod rhaid i'r claf ddod y tu allan i'r ystafell wely i weithredu'r bleind. Hefyd, gallai unrhyw un a oedd yn mynd heibio symud y bleind i weld i mewn i'r ystafell wely. Mae angen datrys y mater hwn yn unol â'r argymhellion preifatrwydd ac urddas eraill a wneir yn y paragraff uchod.

Roedd modd gweld yn eglur i mewn i ystafelloedd gwely cleifion o'r ardd. Roedd yn eglur o drafodaethau gyda'r staff fod gan ymwelwyr fynediad at yr ardd. Mae'n rhaid cymryd camau priodol i ddatrys y broblem hon a sicrhau nad yw preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu peryglu.

³ Hysbysfwrdd sy'n cynnig cyfeiriad cyflym i'r staff at wybodaeth hanfodol am y cleifion unigol sy'n derbyn gofal ar y ward.

Gwelsom fod angen glanhau ffenestri (y tu allan) gan eu bod yn fudr ac wedi eu baeddu. Dywedodd y staff fod y ffenestri'n cael eu glanhau'n flynyddol, ond mae angen adolygu'r amllder hwn i sicrhau bod cleifion yn gallu gweld y tu allan yn eglur.

Roedd angen llenni newydd a/neu fleinds tywyllu mewn rhai ystafelloedd gwely. Roedd yn ddiwrnod heulog ar adeg ein hymweliad ac roedd rhai ystafelloedd gwely yn llawn heulwen. Fodd bynnag, roedd y llenni'n ymddangos yn denau ac wedi eu diliwio gan yr haul. Argymhellwyd gennym y dylid rhoi ystyriaeth i'r holl amgylcheddau cleifion i sicrhau bod dodrefn priodol ar waith fel y gall y cleifion orffwyso a chysgu yn gysurus.

Ar waelod y coridor ystafelloedd gwely, roedd drws yn arwain i'r brif gegin a'r brif fynedfa i ward Willow. Er bod ward Willow yn wag ar adeg ein harolygiad, canfuwyd gennym y byddai'n rhaid i gleifion ac ymwelwyr â ward Willow fynd trwy adran ystafelloedd gwely Cedar Parc. Cynghorwyd gennym yn ystod ein trafodaethau adborth felly y dylai unrhyw gynlluniau yn y dyfodol gymryd y llwybr amhriodol hwnnw i ystyriaeth, er mwyn atal mynediad i ymwelwyr at adrannau ystafelloedd gwely Cedar Parc.

Hefyd, roedd y brif gegin wedi ei lleoli oddi ar goridor ystafelloedd gwely Cedar Parc. O ganlyniad, roedd bwyd yn cael ei gludo drwy'r adran ystafelloedd gwely. Ystyriwyd bod hyn yn anaddas. Argymhellwyd gennym fod risgiau'n cael eu hasesu i sicrhau diogelwch y cleifion a'r hylendid gorau posibl ac a fyddai modd cael gwahanol lwybr.

Roedd y drws sy'n arwain o goridor ystafelloedd gwely Cedar Parc i'r gegin a phrif fynedfa Willows yn dangos arwydd i amlygu bod y drws yn ddiffygiol. Fe'n hysbyswyd bod y broblem wedi bodoli ers amser maith. Gwelsom hefyd y gallai mecanwaith cau diffygiol y drws arwain i gleifion adael y ward heb awdurdod. Hefyd, roedd y drws yn llwybr allanfa dân dynodedig ac yn cael ei ddefnyddio'n gyson gan staff y gegin i gludo bwydydd. Mae angen datrys y broblem hon fel mater o frys.

Roedd arwyddion eglur ar gyfer cyfleusterau ystafell ymolchi ac roedd toiledau wedi eu neilltuo ar gyfer cleifion gwrywaidd a benywaidd. Gwelsom un ystafell wely lle'r oedd cyfleuster en-suite. Fodd bynnag, roedd cyfleusterau ymolchi yn anaddas ar gyfer unigolion hŷn yn gyffredinol gan na ellid defnyddio teclynau codi. Roedd larwm galw yn y toiled i fenywod ar y coridor dydd a oedd wedi ei lleoli nesaf at y drws, felly nid oedd o fewn cyrraedd rhwydd i gleifion ofyn am gymorth gan y staff. Roedd cordiau tynnu brys mewn toiledau eraill a oedd mewn lleoliad mwy priodol. Argymhellwyd gennym felly fod adolygiad o'r holl

doiledau a chyfleusterau ymolchi yn cael ei gynnal i sicrhau bod dyfeisiau galw brys ar gael ac yn hygyrch i'r holl gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen asesu'r paneli golwg yn nrysau'r ystafelloedd gwely i sicrhau nad yw preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu peryglu a bod modd i'r cleifion a'r staff reoli'r paneli.

Mae angen adolygu ystafelloedd gwely cleifion lle ceir ffenestri sy'n wynebu'r coridor a bleinds wedi eu gosod arnynt na ellid eu gweithredu yn yr ystafell wely gan y preswylwyr i sicrhau nad yw preifatrwydd ac urddas yn cael eu peryglu.

Mae angen diogelu cleifion rhag cleifion eraill ac ymwelwyr a allai ddefnyddio'r ardd gaeedig ac sy'n gallu gweld i mewn i'w hystafelloedd gwely. Ni ddylid cyfyngu golygfeydd o'r tu mewn i'r ystafelloedd gwely.

Mae angen glanhau'r ffenestri ar Cedar Parc gan eu bod yn fudr. Mae angen adolygu amlder glanhau ffenestri i sicrhau y gall y cleifion weld y tu allan yn eglur.

Mae angen adolygu llenni'r ystafelloedd gwely i sicrhau bod y rheini sydd wedi eu diliwio gan yr haul yn cael eu disodli a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r holl amgylcheddau i gleifion i sicrhau bod dodrefn priodol ar gael fel y gall y cleifion orffwyso a chysgu yn gysurus.

Mae angen asesu'r cyfleusterau ymolchi a'r toiledau i sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion. Hefyd, mae angen i gordiau tynnu brys fod ar gael ac yn hygyrch i'r cleifion ym mhob cyfleuster toiled.

Mae angen adolygu'r brif fynedfa i ward Willow a dylid adlewyrchu hyn yn unrhyw gynlluniau ar gyfer y ward yn y dyfodol. Mae'n amhriodol fod rhaid i'r brif fynedfa i ward Willow dorri ar draws ystafelloedd gwely cleifion ar Cedar Parc.

Mae angen trwsio'r drws diffygiol (sy'n arwain o goridor ystafelloedd gwely Cedar Parc i'r gegin) i sicrhau bod diogelwch y cleifion a'r staff yn cael ei gynnal.

Mae angen adolygu'r broses o gludo bwyd o'r brif gegin trwy goridor ystafelloedd gwely Cedar Parc i sicrhau diogelwch y cleifion a'r hylendid gorau posibl ac i weld a ellid cael llwybr gwahanol.

Gwybodaeth cleifion

Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth wedi ei harddangos yn nerbynfa Cedar Parc i ymwelwyr a chleifion. Roedd hysbysfyrddau yn dangos ffotograffau a gwybodaeth am brosiect yr ardd ynghyd â thafleini a phosteri gan sefydliadau gwirfoddol, gan gynnwys Cymdeithas Clefyd Alzheimer ac Age UK.

Roedd gwybodaeth am y gweithgareddau sydd ar gael ar y ward wedi ei harddangos ynghyd â thafleini eiriolaeth. Roedd cardiau diolch ac ystadegau penodol i'r ward, gan gynnwys digwyddiadau, ar gael i gleifion ac ymwelwyr eu gweld.

Ar y ward, roedd gwybodaeth wedi ei harddangos am y llyfrynnau 'Dyma Fi' yr oedd gan y cleifion ar waith. Mae'r llyfrynnau hyn yn helpu eraill i ddeall a chyfathrebu agweddau ar hunaniaeth cleifion, gan gynnwys eu cefndir, eu diddordebau, yr hyn y maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi.

Roedd hysbysfwrdd gofalwyr yn dangos gwybodaeth benodol am grwpiau cymorth a chanllawiau ar ddod â bwyd ar y ward yn ogystal â gwybodaeth yn y Gymraeg.

Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth i gleifion a oedd i'w gweld ar y ward ac rydym yn argymhell bod gwasanaethau fel eiriolaeth a Gweithio i Wella yn cael eu harddangos ar y ward. (Gweler yr argymhellion a wneir yn yr adran 'Gwrando ar adborth a dysgu ohono'.)

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd yn amlwg o'n harsylwadau o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion fod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu gyda'r cleifion yn effeithiol. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer y claf unigol.

Gofal amserol

Roedd tîm amlddisgyblaeth ar y ward a oedd yn cynnwys meddyg ymgynghorol, therapydd galwedigaethol, seicolegydd a meddyg ward. Roedd cyfarfodydd amlddisgyblaeth a rowndiau ward wythnosol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn ymsefydlu dull cydweithredol ac amserol o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

Fe'n hysbyswyd bod gwasanaethau eiriolaeth yn mynychu'n wythnosol.

Gofal unigol

Hawliau pobl

Gallai'r cleifion ddefnyddio'r gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol a hefyd cael mynediad at y Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol yn ôl y gofyn.

Roedd manau priodol ar y ward i'r cleifion gyfarfod ag ymwelwyr yn breifat, ynghyd â threfniadau i wneud/derbyn galwadau ffôn preifat.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Nid oedd unrhyw wybodaeth i'w gweld ar adeg ein hymweliad i annog y cleifion a/neu eu teuluoedd i gynnig adborth am y gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym fod blwch adborth wedi cael ei symud oherwydd digwyddiad diweddar ac nad oedd wedi cael ei roi yn ôl. Dywedodd y staff y byddai hwn yn cael ei ddisodli gan flwch newydd yn dilyn ein hymweliad.

Nid oedd unrhyw daflennu a/neu bosteri ar sut y gallai cleifion ac ymwelwyr godi pryderon gan ddefnyddio proses 'Gweithio i Wella' y GIG. Roedd hen daflenni gweithdrefn gwynion wedi eu harddangos yn y cyntedd a oedd yn dangos y manylion anghywir ar gyfer y prif weithredwr ac a oedd wedi eu hysgrifennu ar gyfer hen Ymddiriedolaeth GIG Gwent. Cynghorwyd y staff gennym felly y dylid cael gwared ar yr hen daflenni ac arddangos gwybodaeth 'Gweithio i Wella' yn eglur i gleifion ac ymwelwyr yn y cyntedd ac ar y ward.

Dywedodd y staff wrthym y byddai unrhyw bryderon llafar yn cael eu rhannu gyda'r nyrs â gofal, a fyddai'n sicrhau wedyn bod y gwaith papur priodol yn cael ei gwblhau a bod y pryder yn cael sylw.

Roedd taflenni eiriolaeth wedi eu harddangos yn y cyntedd, ond nid oedd unrhyw beth i'w weld ar y ward. Argymhellwyd gennym felly bod y staff yn rhoi gwybodaeth i'r cleifion am wasanaethau eiriolaeth ar y ward.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen cael gwared ar hen daflenni a/neu bosteri gweithdrefn gwynion a'u disodli gyda 'Gweithio i Wella'.

Mae angen arddangos systemau ar gyfer casglu adborth cleifion ac ymwelwyr yn eglur yn y cyntedd ac ar y ward.

Mae angen i wybodaeth am y gwasanaeth eiriolaeth fod yn amlwg i gleifion ac ymwelwyr a chael ei harddangos yn eglur yn y cyntedd ac ar y ward.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd ein hadolygiad o waith papur y Ddeddf Iechyd Meddwl yn foddhaol yn gyffredinol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod rhywfaint o waith papur ar goll a/neu'n anghyflawn yn y ffeiliau i ni eu hadolygu. O ganlyniad, rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd roi cadarnhad bod y materion yr ydym wedi eu canfod wedi cael sylw.

Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth a adolygwyd yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru.

Roedd y ward yn cynnig mannau priodol lle gall y cleifion gyfarfod â pherthnasau yn breifat.

Er gwaethaf yr archwiliadau a'r asesiadau risg a gyflawnir ar gyfer y ward, nodwyd gennym nad oedd unrhyw dorwyr rhwymynnau⁴ ar gael ac argymhellwyd gennym y dylai'r rhain fod ar gael.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Dywedodd y staff wrthym fod prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch ar yr uned. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd unrhyw dorwyr rhwymynnau ar gael. Gan fod y ward yn trin ac yn gofalu am

⁴ Mae torwyr rhwymynnau yn caniatáu mewnosodiad cyflym a chymharol ddiogel o dan y rhwymyn, gan sicrhau bod y perygl o anaf eilaidd i'r unigolyn neu'r staff cyn lleied â phosibl.

gleifion â salwch meddwl gweithredol, argymhellwyd y dylai torwyr rhwymynnau fod ar gael rhag ofn y bydd achos brys.

Mae desg derbynfa ac ystafell aros wedi eu lleoli wrth gyrraedd y man lle mae'r ward wedi ei lleoli. Mae'r ward wedi ei chloi, ond mae'r staff yn cael mynediad ati trwy system cerdyn allwedd. Mae'r staff yn hebrwng ymwelwyr i'r ward ac mae hyn yn sicrhau diogelwch y cleifion ac ymwelwyr.

O'r ystafelloedd gwely i ni eu gweld, roedd clychau galw nyrsys wedi eu lleoli uwchben y gwelyau. Roedd hyn yn golygu y gallai'r cleifion alw am gymorth yn ôl y gofyn. Nodwyd gennym nad oedd unrhyw staff yn defnyddio larymau personol ac nad oedd ganddynt fynediad at rai. Rydym yn awgrymu bod y bwrdd iechyd yn adolygu'r trefniant hwn, gan gymryd i ystyriaeth digwyddiadau a welwyd lle bu'n ofynnol i'r staff reoli ymddygiad heriol cleifion.

Er gwaethaf y problemau amgylcheddol a amlygwyd gennym yn yr adran uchod, roedd yn ymddangos bod y ward wedi ei chynnal a'i chadw'n dda ac fe'n hysbyswyd ei bod yn derbyn gwasanaeth prydlon gan yr adran cynnal a chadw yn gyffredinol pan fydd yn ofynnol. Roedd ystafelloedd gwely yn cael eu haddurno ar adeg ein hymweliad, a oedd yn rhan o raglen ailwampio barhaus.

Roedd ystafelloedd ar y ward lle gallai'r cleifion weld ymwelwyr yn breifat. Roedd lle digonol i gymhorthion symud gael eu defnyddio ar yr uned hefyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai torwyr rhwymynnau fod ar gael ar y ward.

Mae angen adolygu diogelwch y staff yn unol â digwyddiadau a welwyd ar y ward i ganfod y rhesymau pam nad yw'r staff yn defnyddio larymau diogelwch personol.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar ddiogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff ar Cedar Parc yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol i gleifion. Dywedodd y staff wrthym am y math o archwiliadau ansawdd

/ asesiadau risg a gwblheir ar lefel ward, a oedd yn cael eu cyflwyno i'r uwch-reolwyr eu hadolygu.

Cadw cofnodion

Roedd y cofnodion cleifion i ni eu hadolygu yn ffeiliau papur. Roedd trefniadau storio diogel ar waith i atal mynediad heb awdurdod at y cofnodion hynny a diffyg cydymffuriad o ran cyfrinachedd.

Ar y cyfan, roedd y cofnodion a adolygwyd gennym yn cynnig tystiolaeth o atebolrwydd eglur ac o sut yr oedd penderfyniadau yn ymwneud â gofal cleifion yn cael eu gwneud. Roedd y cofnodion o ansawdd boddhaol o ran cywirdeb a'r ffaith eu bod yn gyfredol. Roedd rhai nodiadau lle nad oedd y llawysgrifen yn amhosibl ei deall ond yn anodd ei dehongli.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol tri o gleifion gennym a chanfuwyd gennym fod y ffeiliau'n foddhaol yn gyffredinol.

Gwelsom yn y cofnodion a adolygwyd fod y gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy wedi sicrhau bod y meini prawf ar gyfer cadw wedi cael eu bodloni ac wedi darparu cofnod cryno a chynhwysfawr yn unol â gofynion cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r cod ymarfer.

O'r tair ffeil a adolygwyd, dim ond un ffeil oedd yn cynnwys tystiolaeth o sut yr oedd gwybodaeth am yr adran o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yr oedd y claf yn cael ei gadw'n unol â hi yn cael ei darparu i'r claf. Trafodwyd y cofnod nad oedd yn cynnwys unrhyw wybodaeth ar adeg ein hymweliad. Fe'n sicrhawyd gan y staff fod y broses hon yn mynd i gael ei chychwyn ar unwaith. Mae angen inni dderbyn cadarnhad felly fod y cam gweithredu hwn wedi cael ei gwblhau.

Yn un ffeil, canfuwyd gennym mai dim ond un clinigydd cyfrifol oedd wedi gwneud cyfeiriad at ddiffyg galluedd y claf. Roedd yn eglur nad oedd y claf o'r ardal leol ac efallai nad oedd y dogfennau'n ymwneud ag asesu galluedd meddyliol wedi cyrraedd y ward. Mae angen inni gael cadarnhad bod y gwaith papur priodol wedi cael ei dderbyn a/neu ei gwblhau ac yn amlwg yn ffeil y claf.

Roedd ffurflen 'Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol' yn un ffeil ond roedd wedi ei chwblhau i safon wael. Roedd sawl adran â diffyg ymatebion ac nid oedd rhesymau wedi eu hamlygu i gefnogi'r crynodeb clinigol. Roedd hyn yn golygu efallai nad yw penderfyniadau yn cael eu gwneud yn unol â dymuniadau'r claf/teulu. Nid oedd y ffurflen yn cynnig tystiolaeth fod trafodaethau gyda'r claf, twrnai iechyd a lles, neu eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol wedi cael eu

cynnal. Er gwaethaf tystiolaeth fod meddyg damweiniau ac achosion brys wedi llofnodi a dyddio'r ffurflen, nid oedd unrhyw wybodaeth wedi ei chofnodi bod yr uwch-glinigydd cyfrifol wedi llofnodi a dyddio'r ffurflen, nac unrhyw gofnod o gyfathrebu bod y tîm amlddisgyblaeth wedi cael ei hysbysu am y penderfyniad. Trafodwyd hyn ar adeg ein hymweliad a chymerodd y staff gamau i fynd i'r afael â'r mater hwn gyda'r clinigwyr priodol. Ni fu'n bosibl datrys y mater hwn yn llawn cyn i ni adael y ward. Hysbyswyd y gwasanaeth felly am yr angen i ddarparu cadarnhad i AGIC fod y mater hwn wedi cael ei ddatrys yn unol â'r sgysiau a gafwyd yn ystod yr arolygiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen cadarnhad bod asesiadau galluedd meddyliol, wedi eu cwblhau'n llawn, ar gael ar ffeil, gan gofnodi'n eglur asesiad y clinigydd cyfrifol o alluedd.

Mae angen cadarnhad i wirio bod cleifion yn derbyn gwybodaeth am yr adran o'r Ddeddf Iechyd Meddwl y mae'r claf yn cael ei gadw'n unol â hi a bod tystiolaeth o hyn yn eu ffeiliau.

Mae angen cadarnhad i wirio bod y materion a godwyd o ran ffurflen Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol wedi cael sylw ac wedi cael eu cyfathrebu'n briodol i'r holl staff perthnasol.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Ochr yn ochr â'n hadolygiad o ddogfennau cadw statudol, ystyriwyd cymhwysiad Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 gennym. Adolygwyd dau gynllun gofal a thriniaeth gennym a chanfuwyd tystiolaeth fod cydgysylltwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion a, phan fo'n briodol, roedd aelodau teulu yn cael eu cynnwys mewn trefniadau cynllunio gofal.

Roedd tystiolaeth eglur yn y cynlluniau gofal a thriniaeth i ni eu hadolygu bod gwasanaethau eiriolaeth ar gael i'r cleifion.

I ategu cynlluniau gofal y cleifion, roedd amrywiaeth helaeth o asesiadau cleifion i nodi a monitro'r ddarpariaeth o ofal cleifion, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau a nodwyd a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Canfuwyd gennym fod y cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Trwy drafodaethau gyda'r staff ac arsylwadau ar yr uned, daethpwyd i'r casgliad fod gwaith tîm da yn cael ei wneud. Roedd y staff wedi ymrwymo i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel a dywedasant eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr uwch-reolwyr.

Mae angen adolygu cymysgedd sgiliau'r staff i sicrhau bod sgiliau'r staff yn briodol pan fydd cyfnodau o aciwtedd cleifion uchel i sicrhau diogelwch, gofal a thriniaeth y grŵp cleifion.

Roedd prosesau ar waith i'r staff dderbyn gwerthusiad blynyddol a chwblhau hyfforddiant gorfodol.

Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant iechyd meddwl penodol, ond nid oedd hwn yn cael ei gofnodi ac argymhellir bod yr holl hyfforddiant a gwblheir yn cael ei gofnodi. Mae angen rhoi ystyriaeth i ddarparu mwy o hyfforddiant i'r staff sy'n benodol i'r grŵp cleifion y maent yn gofalu amdano ac yn ei gynorthwyo.

Roedd y staff i ni siarad â nhw yn gallu disgrifio'r broses ar gyfer adrodd digwyddiadau ac roedd gwersi a ddysgwyd yn cael eu cyfathrebu i'r holl staff fel ffordd o wella gofal cleifion.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Canfuwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y ward yn canolbwyntio ar wella ei gwasanaethau yn barhaus. Cyflawnwyd hyn, yn

rhannol, trwy raglen barhaus o archwiliadau, y mae ei chanlyniadau yn cael eu cyflwyno i'r uwch-reolwyr fel y gellir monitro canlyniadau a thrafod canlyniadau clinigol o ran y ddarpariaeth o ofal cleifion.

Roedd gan Cedar Parc reolwr ward a dirprwy penodol a oedd yn cael eu cynorthwyo gan dîm ward ac amlddisgyblaeth.

Canfuwyd gennym fod y staff wedi ymrwymo i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel a dywedodd y staff fod gwaith tîm ar y ward yn dda iawn. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr, gan ddweud eu bod yn hawdd mynd atynt. Dywedasant wrthym hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd yn gadarnhaol bod yr holl staff yn croesawu ein safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion trwy gydol yr arolygiad.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Arsylwyd gennym, a dywedodd y staff wrthym, fod gan y ward dîm da. Gwelsom y tîm yn gweithio'n dda ac yn darparu gofal tosturiol i'r cleifion. Ar adeg ein hymweliad, fe'n hysbyswyd bod aciwtedd cleifion⁵ yn uwch na'r arfer a bod hynny wedi bod yn wir ers tua phythefnos. Roedd yn gadarnhaol clywed bod lefelau staffio yn cael eu hystyried yn ystod y cyfnodau hyn i sicrhau y gellir rheoli aciwtedd cleifion ac arsylwadau yn briodol. Fodd bynnag, amlygodd trafodaethau yn ystod yr ymweliad mai gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n cael eu defnyddio'n bennaf i gynorthwyo yn ystod cyfnodau o aciwtedd cleifion uchel ac felly mae'n bosibl y gallai'r gymysgedd sgiliau fod yn amhriodol. Mae angen archwilio'r mater hwn yn llawn a'i addasu i sicrhau bod y gymysgedd sgiliau yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion a diogelwch pawb.

Roedd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi. Roedd hyn yn sicrhau y byddai unrhyw staff nad oeddent ar ddyletswydd yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.

⁵ Cysyniad y cyfeirir ato'n aml gan ddarparwyr gofal a'r llenyddiaeth gwyddor iechyd yw aciwtedd cleifion, ond heb fod yn benodol neu'n gyson o ran diffiniad neu fesuriad. Mae aciwtedd wedi dod yn gyfeiriad ar gyfer amcangyfrif dyraniadau staffio nyrsys a phenderfyniadau cyllideb o ran dwysedd y gofal sy'n ofynnol ar gyfer claf.

Adolygwyd hyfforddiant staff gennym a nodwyd gennym fod rhaglen orfodol ar waith ar gyfer yr holl staff. Roedd systemau ar waith i fonitro cyfraddau cwblhau; fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod oedi cyn i gofnodion cyfredol ymddangos ar y system Cofnod Staff Electronig. O ganlyniad, defnyddir system ychwanegol i gynnig trosolwg o gydymffuriad. Trafodwyd y mater hwn yn y cyfarfod adborth ac fe'n sicrhawyd bod y bwrdd iechyd yn ymwybodol o'r broblem ac yn ceisio ei datrys.

Roedd gan y staff fynediad at gyfrifiaduron i gwblhau hyfforddiant ar-lein, ond dywedasant nad oedd unrhyw amser dynodedig i gwblhau hyfforddiant. Defnyddiwyd sifftiau nos yn bennaf i ddal i fyny â hyfforddiant. Fe'n hysbyswyd y rhoddwyd nifer benodol o leoedd i'r ward fel y gallai'r staff dderbyn yr hyfforddiant atal a rheoli trais ac ymddygiad ymosodol.

Darparwyd rhywfaint o hyfforddiant iechyd meddwl penodol. Darparwyd hyfforddiant Deddf Iechyd Meddwl a Chod Ymarfer Cymru yn ystod y chwe mis diwethaf, yn ogystal â chyrsgiau priodol eraill, ond nid oedd y modiwlau hyn wedi eu cofnodi ac mae'n bwysig y cedwir cofnod cynhwysfawr o'r holl hyfforddiant staff a gwblheir. Roedd gan y staff fynediad at hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia ar-lein, ond nid oedd unrhyw ddiweddariadau rheolaidd na hyfforddiant lefel uwch ar gael, a fyddai o fudd i'r staff sy'n cynorthwyo, trin a gofalu am gleifion â'r cyflwr hwn.

Datgelwyd bod oedi ar adegau pan fydd y ward yn recriwtio staff newydd cyn iddynt dderbyn eu rhifau staff. Mae'r rhif hwn yn ofynnol i gwblhau hyfforddiant ar-lein ac, felly, gan y bu oediadau yn derbyn rhifau staff, bu oediadau o ran cwblhau cyrsiau hyfforddi ar-lein hefyd. Rydym yn argymhell felly fod y bwrdd iechyd yn ystyried y mater hwn ac yn chwilio am ateb a fydd yn galluogi'r rheini sy'n cychwyn gael mynediad at hyfforddiant ar-lein cyn gynted â phosibl fel eu bod yn caffael y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer eu swyddi.

Nid oedd unrhyw broblemau o ran staff yn cael mynediad at hyfforddiant allanol ychwanegol a pherthnasol gyda chymeradwyaeth y rheolwr llinell.

Roedd y staff yn derbyn gwerthusiadau blynyddol wedi eu cofnodi gyda dyddiadau cwblhau yn cael eu cofnodi ar y system Cofnod Staff Electronig. Roedd y system yn dangos cyfradd gydymffurfio o 97% ar gyfer gwerthusiadau staff.

Disgrifiodd y staff nyrsio y weithdrefn ar gyfer adrodd digwyddiadau ac roedd dealltwriaeth a gwybodaeth eglur yn cael eu darparu ganddynt am y broses hon. Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar y system Datix⁶ ac roedd gwersi a ddysgwyd yn cael eu trafod gyda thîm y ward yn ôl y gofyn, fel y nodwyd gan y staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen archwilio a rhoi sylw i gymysgedd sgiliau'r staff, yn enwedig pan fo cyfnodau o aciwtedd cleifion uchel, i sicrhau bod y staff a'r cleifion yn ddiogel ac y gellir darparu gofal a thriniaeth yn ôl y gofyn.

⁶ System adrodd digwyddiadau a rheoli risg yw Datix, i hysbysu am ddigwyddiadau clinigol a'u holrhain.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Caiff adborth ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd ein harolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG yn ystyried sut y mae gwasanaethau:

- Yn cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#)
- Yn bodloni agweddau ar [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n berthnasol. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal yng ngwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Mae rhagor o fanylion am sut y mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar gael ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Ysbyty'r Tri Chwm

Ward(iau): Cedar Parc

Dyddiad yr arolygiad: 28 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Gwelliant uniongyrchol sydd ei angen	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol.				

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty'r Tri Chwm

Ward(iau): Cedar Parc

Dyddiad yr arolygiad: 28 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen i ardd Cedar Parc fod yn fwy hygyrch i'r grŵp cleifion fel bod gan y cleifion gyfleuster ychwanegol i wneud ymarfer corff rheolaidd, i gymryd rhan mewn gweithgareddau gardd ac awyr agored, ac i gael rhyddid i fwynhau rhywfaint o le diogel yn yr awyr agored.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Gofynnwyd am brisiau i'r gwaith gael ei gwblhau ac fe'i hychwanegwyd at y gofrestr risg ranbarthol.	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth / Gwaith ac Ystadau	Mawrth 2018
Mae angen asesu'r paneli golwg yn nrysau'r ystafelloedd gwely i sicrhau nad yw preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu peryglu a bod	4.1 Gofal ag urddas	Gofynnwyd am brisiau i'r gwaith gael ei gwblhau.	Uwch-nyrs / Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth /	Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
modd i'r cleifion a'r staff reoli'r paneli.		<p>Ychwanegwyd y pryder at y gofrestr risg ranbarthol.</p> <p>Bydd y cynllun gofal a thriniaeth yn adlewyrchu'r ddarpariaeth i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.</p> <p>Mae gorchuddion yn cael eu defnyddio yn y cyfamser.</p>	Gwaith ac Ystadau	
Mae angen adolygu ystafelloedd gwely cleifion lle ceir ffenestri sy'n wynebu'r coridor a bleinds wedi eu gosod arnynt na ellid eu gweithredu yn yr ystafell wely gan y preswylwyr i sicrhau nad yw preifatrwydd ac urddas yn cael eu peryglu.	4.1 Gofal ag urddas	<p>Gofynnwyd am brisiau i'r gwaith gael ei gwblhau.</p> <p>Ychwanegwyd y pryder at y gofrestr risg ranbarthol.</p> <p>Bydd y cynllun gofal a thriniaeth yn adlewyrchu'r ddarpariaeth i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.</p>	Uwch-nyrs / Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth / Gwaith ac Ystadau	Mawrth 2018
Mae angen diogelu cleifion rhag cleifion eraill ac ymwelwyr a allai ddefnyddio'r ardd gaeedig ac sy'n gallu gweld i mewn i'w hystafelloedd gwely. Ni ddylid cyfyngu golygfeydd o'r tu mewn i'r ystafelloedd gwely.	4.1 Gofal ag urddas	<p>Gofynnwyd am brisiau i haen breifatrwydd gael ei gosod ar ffenestri tu allan ystafelloedd gwely.</p> <p>Ychwanegwyd y pryder at y gofrestr risg ranbarthol.</p>	Uwch-nyrs / Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth / Gwaith ac Ystadau	Mawrth 2018
Mae angen glanhau'r ffenestri ar Cedar Parc	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd	Bydd yr uwch-nyrs yn cysylltu â'r rheolwr cyfleusterau i sicrhau bod y	Uwch-nyrs	Ionawr 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gan eu bod yn fudr. Mae angen adolygu amlder glanhau ffenestri i sicrhau y gall y cleifion weld y tu allan yn eglur.	a diogelwch	ffenestri'n cael eu glanhau.		
Mae angen adolygu llenni'r ystafelloedd gwely i sicrhau bod y rheini sydd wedi eu diliwio gan yr haul yn cael eu disodli a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r holl amgylcheddau i gleifion i sicrhau bod dodrefn priodol ar gael fel y gall y cleifion orffwyo a chysgu yn gysurus.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Gofynnwyd am brisiau ar gyfer bleinds a llenni newydd. Bydd rhestr yn cael ei llunio i adolygu'r holl ddodrefn ar y ward a bydd cynllun i ddisodli dodrefn annerbyniol yn cael ei roi ar waith.	Uwch-nyrs / Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth / Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth	Mawrth 2018
Mae angen asesu'r cyfleusterau ymolchi a'r toiledau i sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion. Hefyd, mae angen i gordiau tynnu brys fod ar gael ac yn hygyrch i'r cleifion ym mhob cyfleuster toiled.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Aseswyd y cyfleusterau ystafell ymolchi presennol ac ystyriwyd eu bod yn briodol ar gyfer cleifion sydd angen lefel isel o gymorth i gyflawni gweithgareddau byw beunyddiol. Os oes angen lefel uwch o gymorth, ceir cyfleusterau ystafell ymolchi yn yr adran i ddiwallu'r anghenion unigol hyn. Bydd anghenion hylendid y cleifion yn	Uwch-nyrs / Rheolwr y Ward Uwch-nyrs /	Parhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>cael eu hasesu wrth eu derbyn ac yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun gofal a thriniaeth.</p> <p>Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal i asesu addasrwydd cordiau tynnu o'u cymharu â risgiau rhwymynnau.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr y Ward / Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Chwefror 2018</p>
<p>Mae angen adolygu'r brif fynedfa i ward Willow a dylid adlewyrchu hyn yn unrhyw gynlluniau ar gyfer y ward yn y dyfodol. Mae'n amhriodol bod rhaid i'r brif fynedfa i ward Willow dorri ar draws ystafelloedd gwely cleifion ar Cedar Parc.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Bydd adolygiad o fynedfa Willow yn cael ei gynnal i nodi gwahanol opsiwn i gynnal urddas y cleifion.</p>	<p>Uwch-nyrs / Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Ionawr 2018</p>
<p>Mae angen trwsio'r drws diffygiol (sy'n arwain o goridor ystafelloedd gwely Cedar Parc i'r gegin) i sicrhau bod diogelwch y cleifion a'r staff yn cael ei gynnal.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Bydd yr adran gwaith ac ystadau yn cael ei chysylltu i gwblhau'r gwaith sy'n weddill.</p> <p>Bydd y pryder yn cael ei ychwanegu at y gofrestr risg ranbarthol.</p>	<p>Uwch-nyrs / Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth / Gwaith ac ystadau</p>	<p>Ionawr 2018</p>
<p>Mae angen adolygu'r broses o gludo bwyd o'r brif gegin trwy goridor ystafelloedd gwely Cedar Parc i sicrhau diogelwch y cleifion a'r hylendid gorau posibl ac i weld a ellid cael llwybr</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Bydd adolygiad yn cael ei gynnal i nodi llwybr arall.</p>	<p>Uwch-nyrs / Rheolwr Cyfleusterau</p>	<p>Ionawr 2018</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gwahanol.				
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Dylai torwyr rhwymynnau fod ar gael ar y ward.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Archebwyd torwyr rhwymynnau.	Rheolwr y Ward / Uwch-nyrs	Ionawr 2018
Mae angen adolygu diogelwch y staff yn unol â digwyddiadau a welwyd ar y ward i ganfod y rhesymau pam nad yw'r staff yn defnyddio larymau diogelwch personol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch 7.1 Gweithlu	Bydd adolygiad yn cael ei gynnal i ddarganfod y rheswm am y diffyg cydymffurfiad o ran larymau personol.	Uwch-nyrs / Nyrs Arweiniol	Ionawr 2018
Mae angen cadarnhad bod asesiadau galluedd meddyliol, wedi eu cwblhau'n llawn, ar gael ar ffeil, gan gofnodi'n eglur asesiad y clinigydd cyfrifol o alluedd.	3.5 Cadw cofnodion Y Ddeddf Iechyd Meddwl Cod Ymarfer Cymru (2016) – Pennod 13	Bydd yr holl nodiadau achos cyfredol yn cael eu hadolygu i sicrhau bod dogfennau'n cydymffurfio. Rhaglen archwilio chwe misol.	Rheolwr y Ward / Clinigydd Cyfrifol Tîm y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Arweinydd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth	Ionawr 2018 Mawrth 2018
Mae angen cadarnhad i wirio bod cleifion yn derbyn gwybodaeth am yr adran o'r Ddeddf Iechyd Meddwl y mae'r claf yn cael ei gadw'n	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Sicrhau bod yr holl staff yn dilyn y gofyniad cyfreithiol fod yr holl gleifion a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn derbyn taflenni gwybodaeth am y	Rheolwr y Ward / Clinigydd Cyfrifol / Tîm Rheoli'r	Ionawr 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
unol â hi a bod tystiolaeth o hyn yn eu ffeiliau.	3.5 Cadw cofnodion Y Ddeddf Iechyd Meddwl Cod Ymarfer Cymru (2016) – Pennod 4	penderfyniad i'w cadw. Mae hyn wedi ei gynnwys yn rhaglen hyfforddiant y Ddeddf Iechyd Meddwl. Rhaglen archwilio chwe misol.	Gyfarwyddiaeth Tîm y Ddeddf Iechyd Meddwl	Mawrth 2018
Mae angen cadarnhad i wirio bod y materion a godwyd o ran ffurflen Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol wedi cael sylw ac wedi cael eu cyfathrebu'n briodol i'r holl staff perthnasol.	3.5 Cadw cofnodion Cod Ymarfer Cymru (2016) – Pennod 35	Darparwyd hyfforddiant i'r holl staff. Mae'r staff wedi cael eu cyfarwyddo ym mhob maes i sicrhau cydymffurfriad â phroses a pholisi Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol y bwrdd iechyd ac i sicrhau bod y rhain yn cael eu cofnodi'n eglur yn y nodiadau achos. Caiff pob achos Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol ei adolygu a'i drafod yn ystod y rownd ward wythnosol.	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth / Pwyllgor Uwch-seiciatryddion Gwent / Arweinydd Hyfforddiant Iechyd Meddwl	Ionawr 2018
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae angen archwilio a rhoi sylw i gymysgedd sgiliau'r staff, yn enwedig pan fo cyfnodau o aciwtedd cleifion uchel, i sicrhau bod y staff a'r cleifion yn ddiogel ac y gellir darparu gofal a	7.1 Gweithlu	Caiff rhestrau gwaith y ward eu cytuno yn unol â chanllawiau staffio diogel a'u cytuno gan y nyrs ranbarthol a'r nyrs arweiniol.	Nyrs Ranbarthol / Nyrs Arweiniol / Uwch-nyrs	Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
thriniaeth yn ôl y gofyn.		Caiff gofynion staffio eu hailasesu ar ddechrau pob sifft. Caiff niferoedd ac aciwtedd cleifion eu hystyried gyda rheolwr y ward / yr uwch-nyrs er mwyn cytuno ar y staffio cywir. Caiff pryderon ynghylch staffio eu huwchgyfeirio i dîm rheoli'r gyfarwyddiaeth bob amser.	Nyrs â Gofal / Rheolwr y Ward / Uwch-nyrs	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Ana Llewellyn

Swydd: Nyrs Ranbarthol

Dyddiad: 15/1/18